# Llên-ladrad

## Pryd mae'n dechrau a phryd mae'n gorffen?

Mae rhif 1 yn y rhestr isod yn enghraifft o lên-ladrad, ac mae rhif 8 yn enghraifft o dechneg cyfeirnodi dderbyniol. Ystyriwch y pwyntiau a rhowch linell rhwng y pwynt olaf sy'n cael ei gyfrif yn llên-ladrad a'r pwynt cyntaf sy'n cael ei gyfrif fel gwaith derbyniol ac arfer academaidd da.

1. Copïo paragraff air am air heb unrhyw gydnabyddiaeth o darddiad y ffynhonnell.

2. Copïo paragraff gan wneud mân newidiadau, e.e. disodli rhai berfau, neu ailosod gair sy'n gyfystyr ag ansoddair. Cynnwys cyfeirnod a chyfeirnod llawn yn y rhestr lyfryddiaeth.

3. Torri a gludo paragraff gan newid trefn brawddegau a hepgor un neu ddwy frawddeg.

4. Torri a gludo paragraff gan newid trefn brawddegau a hepgor un neu ddwy frawddeg. Dim dyfynodau. Cyfeirnod wedi'i gynnwys a chyfeirnod llawn yn y rhestr lyfryddiaeth.

5. Creu paragraff gan gymryd cymalau byrion o 10 i 15 gair o wahanol ffynonellau gan eu rhoi at ei gilydd gan gynnwys rhai o'ch geiriau eich hun i greu cyfanwaith. Pob ffynhonnell wedi'u cynnwys yn y rhestr lyfryddiaeth.

6. Aralleirio paragraff neu frawddeg, gan wneud newidiadau sylweddol i'r iaith, y drefn, y manylion a'r enghreifftiau. Cyfeirnodi o fewn y testun a chyfeirnod llawn yn y rhestr lyfryddiaeth.

7. Crynhoi yn eich geiriau eich hun ddarn o waith yr awdur, gan gyfeirnodi tarddiad y ffynhonnell wreiddiol a chynnwys cyfeirnod llawn yn y rhestr lyfryddiaeth.

8. Dyfynnu paragraff air am air a – yn dibynnu ar ei hyd – ei osod rhwng dyfynodau o fewn y testun neu fel paragraff wedi'i fewnosod ar wahân. Cyfeirnodi'r ffynhonnell a chynnwys cyfeirnod llawn yn y rhestr lyfryddiaeth.

Addaswyd o Swales, J.M. a C.B. Feak, *Academic Writing for Graduate Students* (University of Michigan Press 1994) 126, a J. Carrol, *A Handbook for Deterring Plagiarism in Higher Education* (Oxford Centre for Staff and Learning Development 2002) 42.

## Nodiadau tiwtor

Mae'r rhifau isod yn cyfateb i'r rhifau gyferbyn.

2. Ar gyfer aralleiriad (pan rydych chi'n dehongli'r gwreiddiol yn eich geiriau eich hun), mae angen gwneud newidiadau sylweddol i'r testun gwreiddiol. Nid yw newid gair yma ac acw yn profi eich dealltwriaeth o'r hyn a ddywedir.
3. Mae angen cydnabod pwy ddywedodd beth, drwy gyfeirnodi eich ffynonellau.
4. Hyd yn oed os ydych chi'n cynnwys cyfeirnod o fewn y testun a chyfeirnod llawn yn y llyfryddiaeth ar y diwedd, mae dal angen i chi brofi eich bod wedi deall yr hyn rydych chi'n ei ddarllen.
5. Er mwyn cynorthwyo eraill i ganfod y ffynonellau rydych chi'n eu defnyddio yn eich gwaith, mae angen dangos o ble y daeth pob un aralleiriad, drwy gyfeirnodi pob ffynhonnell wrth i chi ysgrifennu. Bydd hyn yn gwneud pethau'n gliriach i'r darllenydd.
6. Bydd angen cyfeirnod o fewn y testun ac un yn y llyfryddiaeth ar gyfer pob un aralleiriad.
7. Yn dibynnu ar beth rydych chi angen o'r ffynhonnell (fydd yn cael effaith ar eich dadl, eich honiad, neu eich pwynt), efallai na fyddwch chi angen aralleirio tudalen gyfan. Mae crynhoi yn ffordd dda o gyfeirio at fwy nag un ffynhonnell o fewn eich gwaith.
8. Er bod hyn yn un ffordd o gyfeirio at eich ffynonellau, ceisiwch osgoi dyfynnu darnau mawr o destunau. Nid yw hyn yn dangos eich dealltwriaeth chi o'r testun gwreiddiol nac yn profi i'r darllenydd eich bod hyd yn oed wedi darllen y gwreiddiol. Cadwch ddyfyniadau yn fyr, a cheisiwch eu cynnwys o fewn eich brawddegau chi.

# Plagiarism

## Where does it start, and where does it end?

The following uses of source material start with a plagiarising approach and end with an acceptable technique. Consider each approach in turn and draw a line between the last approach that would produce plagiarism, and the first approach that would produce acceptable work.

1. Copying a paragraph verbatim (word for word) without any acknowledgement of where the information came from.

2. Copying a paragraph and making a few minor changes, e.g. replacing a few verbs, or replacing an adjective with a synonym. Including a citation and a full reference in the bibliography.

3. Cutting and pasting a paragraph by putting one or two sentences in a different order and leaving one or two out.

4. Cutting and pasting a paragraph by putting one or two sentences from the original in a different order and leaving one or two out. No quotation marks. Citation included and a full reference in the bibliography.

5. Composing a paragraph by taking short phrases of 10 to 15 words from a number of sources and putting them together with some words of your own to make a coherent whole. All sources included in the bibliography.

6. Paraphrasing a paragraph or sentence, making substantial changes in language, organisation, amount of detail, and examples. In-text citation and a full reference supplied in the bibliography.

7. Summarising in your own words the main idea of part of a text, or a whole text, and citing the source of the original information within the text and in full in the bibliography.

8. Quoting a paragraph verbatim and – depending on length – placing it in single or double quotation marks or as an indented paragraph. Citing the source and including a full reference in the bibliography.

Adapted from Swales, J.M. and C.B. Feak, *Academic Writing for Graduate Students* (University of Michigan Press 1994) 126, and J. Carrol, *A handbook for deterring plagiarism in higher education*. (Oxford Centre for Staff and Learning Development 2002) 42.

## Tutor notes

The numbers below correspond to the numbers opposite.

2. For a paraphrase (where you are interpreting the original in your own words), you need to make substantial changes to the original text. Changing a word here and there does not demonstrate your understanding of what is said.
3. You need to acknowledge who said what, by referencing your sources.
4. Even when you include an in-text citation and a reference at the end, you still need to prove to whoever is reading that you have understood what you have read.
5. To help others find the sources you use in your writing, you need to show where each paraphrase came from, by citing each source as you write. This will make it clearer for the reader.
6. You will need both citation and reference for each paraphrase.
7. Depending on what you need from the text (that will have an impact on your point, claim, or argument), perhaps you won't need to paraphrase a whole page. Summarising is a good way of referring to more than one source in your own writing.
8. Although this is one way of referencing your sources, try to avoid quoting large chunks of texts. Doing this does not show your understanding of the original text, nor does it prove to the reader that you have even read the original. Keep quotes short, and try to incorporate them within your own sentences.